# Adroddiad Blynyddol

# 2025-26

Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru

Interim Environmental Protection Assessor for Wales

AIDAC

IEPAW



AIDAC IEPAW

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 2 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Pwyllgorau'r Senedd | 6 |
| Ymgysylltu â rhanddeiliaid | 8 |
| Ymgysylltu trawsffiniol | 12 |
| Proses | 14 |
| Trosolwg o'r holl gyflwyniadau a gafwyd | 17 |
| Adroddiadau 2025 – 26 | 22 |
| Monitro effaith | 29 |
| Mynegi pryder wrth AIDAC | 32 |

## Rhagair

Mae'n bleser gen i gyflwyno fy adroddiad cyntaf fel Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (AIDAC), sy'n ymdrin â'n pumed flwyddyn o weithredu. Mae'r cyfnod hwn yr adroddir yn ei gylch wedi bod yn arbennig o heriol i AIDAC. Gwnaethom ffarwelio â'n Dirprwy Asesydd, Anna Heslop, ym mis Medi. Mae ein Dirprwy Asesydd newydd, William Wilson, wedi cymryd cyfrifoldeb am y gwaith yr oedd hi'n ei wneud ar ein hadroddiad ynghylch ansawdd dŵr, ond yn anffodus roedd yna fwlch o 4 mis cyn iddo gael ei benodi. Daeth y contract ar gyfer un o ddau aelod ein hysgrifenyddiaeth i ben ym mis Mehefin, ac ni chafodd y swydd ei llenwi tan fis Ebrill 2026.

Er gwaetha'r anawsterau hyn, mae AIDAC wedi bod yn weithgar iawn eleni. Rydym wedi cynhyrchu pum darn allweddol o waith, ac o ran y rheini hoffwn gydnabod y gwaith sylfaenol a gychwynnwyd gan fy rhagflaenydd, Dr Nerys Llewelyn Jones. Mae'r ddealltwriaeth a gafodd ei meithrin yn ystod y blynyddoedd cyntaf hynny wedi bod yn allweddol i lywio'r gwaith a wneir ar hyn o bryd, a bydd hynny'n wir hefyd am yr adroddiadau a etifeddwyd sydd wrthi'n cael eu datblygu.

Yn yr un modd, hoffwn fynegi fy niolch i'r gymuned o randdeiliaid amgylcheddol. Mae AIDAC yn parhau i werthfawrogi'r ddealltwriaeth werthfawr y maent wedi'i chyfrannu ar draws y meysydd yr ydym yn adrodd yn eu cylch. Mae eu safbwyntiau a'u hymgysylltu wedi bod yn hanfodol i adroddiadau AIDAC, a byddant yn parhau felly.

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn brysur i lywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru. Mae AIDAC wedi bod yn dilyn hynt Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) o'r drafftiau cynnar ohoni i'r adeg pan gafodd ei phasio gan y Senedd. Edrychwn ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru ar y camau nesaf i sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol i Gymru, ac yn enwedig ar sicrhau proses bontio ddiffwdan o AIDAC i Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru.

Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i weithredu'n ôl yr arfer. Byddwn yn cyflawni gwaith newydd ar Sancsiynau Sifil ac ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig, a byddwn hefyd yn gweithio i gwblhau ein hymchwiliadau ynghylch Tir Halogedig, Ansawdd Dŵr a Llosgi dan Reolaeth.

## Cyflwyniad

Ym mis Mawrth 2021, cafodd Swyddfa Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru fel corff amgylcheddol annibynnol yng Nghymru. Er bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ar ffurf ysgrifenyddiaeth i AIDAC, mae'r aseswyr a'r gwaith a gynhyrchir ganddynt yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac nid ydynt yn cynrychioli barn Llywodraeth Cymru.

Mae AIDAC yn gorff anstatudol ac yn fesur interim sydd ar waith nes bod Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn cael ei sefydlu.

Rydym yn canolbwyntio ar y modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu, a'n nodau yw:

- goruchwylio'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru; ac
- ystyried materion systemig sy'n ymwneud â'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithio neu'n gweithredu yng Nghymru.

Nid yw'r rôl yn cynnwys ystyried:

- achosion o dorri cyfraith amgylcheddol;
- meysydd lle na chydymffurfir â chyfraith amgylcheddol; neu
- faterion a godir ac y mae system neu broses gwyno arall yn ymdrin â nhw.

Ein nod yw adnabod ble y gellir cymryd camau i wella'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu, er mwyn gwella canlyniadau amgylcheddol. Mae manylion ynghylch sut mae mynegi pryder am y modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru, yn ogystal â'n cylch gorchwyl, ar gael yma: [Egwyddorion blaenoriaethu Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (AIDAC) | LLYW.CYMRU]

Mae AIDAC wedi ymrwymo i gyhoeddi adroddiad blynyddol ynghylch y cyflwyniadau a gafwyd, ei waith o ran ystyried sut y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru, ac unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd yng nghyswllt y pryderon a

fynegwyd. Dyma'r pumed adroddiad blynyddol, ac mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Mawrth 2025 a 28 Chwefror 2026.

Ym mis Mawrth 2025, daeth Lynda Warren yn Asesydd Interim gan gymryd lle Nerys Llewelyn Jones a fu'n arwain y tîm yn flaenorol. Ymunodd John Henderson â'r tîm fel Dirprwy Asesydd newydd ym mis Mawrth 2025. Rhoddodd Anna Heslop y gorau i'w swydd fel Dirprwy Asesydd arall ym mis Medi 2025 a daeth William Wilson i gymryd ei lle ym mis Rhagfyr 2025.

## Pwyllgorau'r Senedd

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wedi darparu adolygiad beirniadol o swyddogaeth AIDAC ers iddo gael ei sefydlu yn 2021. Mae AIDAC bob amser wedi ceisio gweithredu ar sail yr argymhellion a wnaed yn adroddiadau'r Pwyllgor, ac wedi cyflawni llawer o'r awgrymiadau a wnaed er mwyn gwella proses, canlyniadau ac effeithiau yng nghyswllt y gwaith y mae'n ei wneud. Yn 2025, ni chafodd AIDAC adolygiad blynyddol. Dywedodd y Pwyllgor mai'r rheswm am hynny oedd y pwysau parhaus a oedd yn ymwneud â'i waith ar Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru).

Ym mis Gorffennaf 2025, rhoddodd AIDAC dystiolaeth i Bwyllgor y Bil yn y Senedd. Bu Lynda yn trafod meysydd allweddol a oedd yn cynnwys annibyniaeth y corff newydd yng Nghymru a'r angen i ddarparu adnoddau digonol a fyddai'n golygu ei bod yn bosibl goruchwylio'n effeithiol y materion heriol sy'n bodoli yng Nghymru. Tynnwyd sylw hefyd at y gallu i wneud cais am adolygiad barnwrol ac i ymyrryd mewn achosion, gan nodi pryderon nad yw'r cyfeiriad at bwerau atodol yn Rhan 9 Atodlen 1 y Bil, sy'n nodi y gall Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru 'wneud unrhyw beth y mae'n ystyried ei fod yn briodol', efallai'n ddigonol i sicrhau bod ganddo'r statws angenrheidiol sy'n ofynnol ar gyfer achosion adolygiadau barnwrol. Roedd AIDAC o'r farn y gallai fod yn anodd i'r corff ddangos ei statws i'r llys oni bai bod cyfeiriad penodol at adolygiad barnwrol yn ei swyddogaethau. Cafodd adroddiad dilynol AIDAC[1] ynghylch Confensiwn Aarhus, sy'n ymdrin â'r materion hyn, ei gyhoeddi fel papur i'r Senedd gan y Pwyllgor yn 2025.

Y sesiwn dystiolaeth hon oedd unig ymddangosiad AIDAC gerbron un o Bwyllgorau'r Senedd yn ystod y flwyddyn hon yr adroddir yn ei chylch. Mae AIDAC yn cydnabod y gwaith y mae'r Pwyllgor hwnnw wedi'i wneud i sicrhau fersiwn o'r Bil sy'n ystyried safbwyntiau AIDAC a'r gymuned ehangach o randdeiliaid amgylcheddol.

Yn ystod blwyddyn lle mae AIDAC wedi cynhyrchu sawl adroddiad sy'n dod â phum mlynedd o waith i ben ac sy'n cyflwyno argymhellion i hybu'r modd y mae cyfraith

[1] **Confensiwn Aarhus: adroddiad | 2026**

amgylcheddol yn gweithredu, mae'n edrych ymlaen at y sesiwn dystiolaeth nesaf gyda Phwyllgor a Llywodraeth newydd. Yn y cyfamser, bydd yr argymhellion a wnaed yn ystod blynyddoedd blaenorol gan y Pwyllgor yn parhau i hybu gwaith AIDAC.

Cafodd yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2025 ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mai 2025[2]. Yn ogystal, ym mis Gorffennaf 2025, cyflwynodd AIDAC ei adroddiad ynghylch Gwersi a Ddysgwyd[3]. Nid oes unrhyw adolygiad o'r adroddiadau hyn wedi dod i law.

[2] **Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru: adroddiad blynyddol 2024 i 2025 | 2025**
[3] **Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru: adroddiad gwersi a ddysgwyd | 2025**

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn parhau i fod yn un o egwyddorion arweiniol gwaith AIDAC. Yn ystod 2025 a dechrau 2026, cyfarfu'r aseswyr ag ystod eang o weithwyr proffesiynol er mwyn sicrhau eu bod yn cael trosolwg cynhwysfawr o sylwadau ar draws y meysydd y mae'n adrodd yn eu cylch. Yn ogystal â'r cyfarfodydd bob chwarter i randdeiliaid, cynhaliodd AIDAC sawl cyfarfod â ffocws er mwyn deall cymhlethdodau'r materion sy'n codi o'r cyflwyniadau a gafodd.

Ddechrau 2025, cyfarfu'r Dirprwy ar y pryd, Anna Heslop, â chynrychiolwyr o'r Comisiwn Dŵr Annibynnol i drafod canfyddiadau newydd a'r goblygiadau posibl i waith AIDAC ar ei adroddiad ynghylch ansawdd dŵr yng Nghymru. Gwelwyd bod canfyddiadau dilynol a oedd yn deillio o ymgynghoriad cyhoeddus a thrafodaethau mewn fforymau cynghori yn cyd-fynd â sawl un o argymhellion adolygiad 2025 y Comisiwn Dŵr Annibynnol gan Syr John Cunliffe,[4] yn enwedig o ran diwygio rheoleiddio ac o ran goruchwyliaeth amgylcheddol.

Ym mis Mehefin, ymwelodd Lynda Warren â safle Tŷ Llwyd. Yn dilyn yr ymweliad, cafwyd trafodaeth ford gron a gynhaliwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, a dynnodd sylw at elfennau cymhleth safleoedd hanesyddol o'r fath ledled Cymru ac a ofynnodd gwestiynau i AIDAC am effeithiolrwydd y Rheoliadau Tir Halogedig cyfredol (Rhan 2A).

Ym mis Gorffennaf 2025 hefyd, cynhaliodd tîm AIDAC ei drydydd digwyddiad blynyddol yn y Sioe Frenhinol yn Llanfair-ym-Muallt. Roedd y panel yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, y gymuned ffermio a rheoleiddwyr cenedlaethol, a bu'r drafodaeth yn canolbwyntio ar yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan AIDAC ynghylch Gwarchod Gwrychoedd yng Nghymru[5]. Clywodd y rhanddeiliaid drafodaeth am brif themâu'r adroddiad gan ganolbwyntio ar wella cymorth i ffermwyr ar gyfer rheoli gwrychoedd, drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ac ar effeithiolrwydd Rheoliadau Gwrychoedd (1997) a'r canllawiau cysylltiedig. Cafwyd trafodaeth fywiog

[4] **Y Comisiwn Dŵr Annibynnol: adolygiad o'r sector dŵr | 2025**
[5] **Gwarchod Gwrychoedd yng Nghymru: adroddiad |2025**

wedyn a chafodd sawl cwestiwn eu gofyn gan y rhanddeiliaid a oedd wedi neilltuo amser i ymuno â'r digwyddiad.

Cyfarfu AIDAC ag Archwilio Cymru yn 2025 i drafod ei adolygiad o ddull Cyfoeth Naturiol Cymru o ddynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Roedd ei adroddiad wedyn,[6] a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2025, yn adlewyrchu llawer o'r pwyntiau a wnaed yn ein hadroddiad ynghylch Safleoedd Gwarchodedig, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2026.

Ym mis Hydref, cynhaliodd John Henderson grŵp ffocws yng Nghaerdydd i drafod y themâu a oedd yn dod i'r amlwg yn adroddiad AIDAC ynghylch tir halogedig. Roedd gweithwyr proffesiynol yn y maes yn cytuno y gellid gwella Rhan 2A Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Roedd angen mwy o gymorth i awdurdodau lleol fel yr awdurdod ymchwilio, oherwydd mae'r rhan y maent yn ei chwarae'n hollbwysig i weithredu'r drefn. Tynnodd y trafodaethau sylw at faint y problemau yng Nghymru ac yn Lloegr ac at yr anawsterau posibl gyda'r diffiniadau statudol cyfredol o dir halogedig. Mae gwaith ar yr adroddiad yn parhau.

At hynny, mae John wedi parhau ag ymwneud AIDAC ag Erthygl 395 y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE. Bu'r cyfarfod diweddaraf a gynhaliwyd gan yr UE (ym mis Chwefror 2026) yng Ngwlad Belg yn canolbwyntio ar yr economi gylchol, rheoleiddio cemegolion, bioeconomi a blaengynllunio, a chafwyd cyfleoedd i drafod trwyddedu amgylcheddol a Deddf Cynllunio a Seilwaith 2025 sy'n un o ddeddfau newydd y DU[7].

Ym mis Chwefror 2026, cyfarfu tîm AIDAC â chydweithwyr o Gomisiwn y Gyfraith i roi trosolwg iddynt o'r gwaith y mae AIDAC yn ei gyflawni. Er bod cylch gorchwyl ac adnoddau Comisiwn y Gyfraith yn fwy o lawer, daethpwyd o hyd i elfennau tebyg ar draws y meysydd ymchwilio a thrafodwyd y posibilrwydd o gydweithio ar ddeddfwriaeth a chael y sector amgylcheddol yn destun ymchwiliad trosfwaol. Byddai ymchwiliad o'r fath yn sicrhau bod Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru

[6] **Diogelu Natur ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol? Tachwedd 2025**
[7] **Deddf Cynllunio a Seilwaith 2025 | 2025**

sydd yn yr arfaeth, y disgwylir y bydd yn dod yn weithredol yn 2028, yn cael darlun eang o'r heriau sydd yng Nghymru.

Cynhaliodd Lynda Warren gyfarfod ar y cyd â'r RSPB yn gynharach eleni yn Llyn Efyrnwy, Powys er mwyn agor trafodaethau am adroddiad newydd sy'n gysylltiedig â Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt etc. (Cymru) 2008[8]. Cyfarfu cynrychiolwyr o'r gwasanaeth tân, cyrff rheoleiddio, undebau amaethwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill ar y safle i ddeall drostynt eu hunain y gwaith y mae'r RSPB yn ei wneud i reoli'r rhostiroedd, a'r effaith y mae llosgi dan reolaeth a thanau 'sydd wedi dianc' neu 'nad ydynt dan reolaeth' yn ei chael ar y dirwedd. Bu'r rhanddeiliaid yn trafod y fframwaith cyfreithiol a'i ofynion, llosgi dan reolaeth fel ffordd o reoli tir, a phroblemau monitro ar draws ardaloedd mor helaeth o dir.

O'r darn hwn o waith, cododd cyfle ym mis Mawrth 2026 gyda Cymru Wyllt (Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru gynt), yr arweiniodd ei gyflwyniad y llynedd at yr ymchwiliad i losgi dan reolaeth yng Nghymru, i drafod yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan AIDAC ynghylch Safleoedd Gwarchodedig yng Nghymru[9], a hynny mewn cyfweliad gyda'i newyddiadurwr[9]. Cyffyrddodd y cyfweliad hefyd â llywodraethiant yn y dyfodol yng Nghymru a barn AIDAC am beth sy'n angenrheidiol i sicrhau cymorth hirdymor ar gyfer yr amgylchedd.

Ym mis Chwefror 2026, cafodd Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)[1] ei basio yn y Senedd, a chafodd Gydsyniad Brenhinol wedyn ar 27 Ebrill. Diben y ddeddfwriaeth yw mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur yng Nghymru, ac mae'n cyflwyno tri newid o bwys i gyfraith amgylcheddol Cymru, sef sefydlu Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru, gofyniad statudol i Weinidogion Cymru osod targedau bioamrywiaeth cyfreithiol rwymol, a gofyniad statudol i gyrff cyhoeddus roi egwyddorion amgylcheddol sydd wedi'u cydnabod yn rhyngwladol ar waith wrth lunio polisi sy'n effeithio ar yr amgylchedd. Drwy gydol 2025, mynychodd AIDAC gyfarfodydd rheolaidd â thimau polisi Llywodraeth Cymru a chyfrannodd i ddatblygiad y Bil drwy ganolbwyntio ar elfennau allweddol Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru a meithrin

---

[8] **Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt etc. (Cymru) 2008 | 2008**
[9] **Cymru Wyllt | Uned Ymchwiliadau Natur – Cyfweliad â'r Athro Lynda Warren, AIDAC**

dealltwriaeth o brofiad AIDAC ers 2021. Bydd gan Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru bwerau sy'n debyg i bwerau ei chwaer-sefydliadau, sef Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon a Safonau Amgylcheddol yr Alban, a bydd yn sicrhau bod Cymru yn gydradd â gweddill y DU.

Mae AIDAC o'r farn y dylai'r mesurau sydd yn y Ddeddf gryfhau diogelu amgylcheddol yng Nghymru ac, os cânt eu gorfodi'n iawn, y dylai fod ganddynt y potensial i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth yng Nghymru.

## Ymgysylltu trawsffiniol

Mae AIDAC yn parhau i gydweithio'n gyda Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon a Safonau Amgylcheddol yr Alban.

Mae'r berthynas wedi'i seilio ar weithgareddau cyfarfodydd rheolaidd ac ar brosiectau sydd wedi'u teilwra, ac mae'n ymestyn i'r gwaith hollbwysig o rannu gwybodaeth yn drawsffiniol ynghylch yr amryw feysydd yr adroddir yn eu cylch. Er y rhoddir llawer o ystyriaeth i'r modd y mae effeithiau deddfwriaethol yn gorgyffwrdd â'i gilydd ar hyd ffiniau gweinyddiaethau datganoledig, mae wedi bod yn ddefnyddiol deall sut y gallai rhai o'r deddfau sy'n berthnasol i'n cymdogion yn unig gael effaith er gwell yng Nghymru.

Cafodd y gynhadledd deirochrog flynyddol rhwng ein sefydliadau ei chynnal gan Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon ym mis Medi 2025. Bu'r trafodaethau yn canolbwyntio ar ddiogelu'r amgylchedd morol, a oedd yn cynnwys gwaith ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig a gweithredu Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol.

Erbyn hyn, mae AIDAC yn cychwyn ar ei adroddiad ei hun ynghylch Ardaloedd Morol Gwarchodedig, yn dilyn cyflwyniad a gafwyd gan yr RSPB ym mis Rhagfyr 2025. Cynhaliodd Lynda gyfarfod ddechrau 2026 â chydweithwyr o Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon, Safonau Amgylcheddol yr Alban, DEFRA a Llywodraeth Cymru er mwyn cychwyn trafodaethau ac archwilio'r meysydd a allai esgor ar yr effaith fwyaf i Gymru. Bydd y gwaith a wneir gan Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon a Safonau Amgylcheddol yr Alban yn llywio'r adroddiad, a bydd cyfarfodydd parhaus a thrafodaethau trawsffiniol yn fodd i lunio strategaeth graff ac yn fodd i arsylwi meysydd lle mae'r gwaith sydd wedi'i gwblhau eisoes gan gymheiriaid yn galluogi AIDAC i arbed adnoddau, sy'n bwysig ac sy'n allweddol ar gyfer tîm bach.

Mae dysgu a chydweithio parhaus wrth adrodd ynghylch tir halogedig ar draws y DU, drwy gyfarfodydd rheolaidd â chymheiriaid AIDAC, yn darparu adnodd ychwanegol sylweddol sy'n cynorthwyo John Henderson, Dirprwy Asesydd AIDAC, i ddatblygu'r gwaith.

Fel y nodwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol, mae pob un o'r pedair gwlad yn parhau i ddyrannu adnoddau i waith ar ansawdd dŵr ledled y DU. Mae diddordeb y cyhoedd yn dal i dyfu wrth i gyfryngau prif ffrwd sôn yn gynyddol am y materion dan sylw ac wrth i'r effeithiau effeithio ar gymunedau ym mhob ardal. Mae William Wilson wedi cymryd cyfrifoldeb am y gwaith ynglŷn â'r pwnc hwn, a ddechreuwyd gan Anna Heslop, ac mae'n bwriadu cwblhau'r adroddiad terfynol eleni.

Ym mis Gorffennaf 2025, rhoddodd Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon a Safonau Amgylcheddol yr Alban dystiolaeth i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, ochr yn ochr ag AIDAC, yn ei sesiwn Senedd ar gyfer Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) fel yr oedd ar y pryd. Llywiodd hynny 'r modd y bu'r Pwyllgor yn craffu ar y fframwaith llywodraethiant amgylcheddol arfaethedig cyn i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2026, a phwysleisiodd bwysigrwydd sefydlu corff gwarchod cadarn ac annibynnol i Gymru. Gan ddefnyddio eu cylchoedd gorchwyl perthnasol yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gwnaethant daflu goleuni ar systemau gorfodi ac ar ddulliau effeithiol o ymdrin ag ymchwiliadau ffurfiol a chyflwyno hysbysiadau cydymffurfio. Wrth ddangos sut y mae eu swyddogaethau statudol yn gweithredu'n ymarferol, gwnaethant gynnig cyngor ymarferol i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ynghylch cau'r bwlch o ran llywodraethiant ac ynghylch dylunio corff llywodraethiant amgylcheddol sydd wedi'i deilwra ac sydd â digon o adnoddau ar gyfer Cymru.

## Proses

### Y broses ar gyfer cyflwyniadau

Rydym yn ymateb i gyflwyniadau ynghylch cyfraith amgylcheddol Cymru cyn pen 20 diwrnod gwaith, gan ddilyn ein safonau. Mae pob cyflwyniad yn mynd drwy ymarfer cwmpasu er mwyn asesu ei berthnasedd i gyfraith amgylcheddol ac asesu a yw'n rhan o gylch gorchwyl AIDAC. Yna, rhoddir blaenoriaeth iddo ar sail pwysigrwydd a'r dyraniad o ran adnoddau, mewn modd sy'n cyd-fynd â'n hegwyddorion[10]. Rydym yn ceisio ymgorffori cyflwyniadau perthnasol yn y gwaith sy'n mynd rhagddo er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau; caiff cyflwyniadau nad oes modd gweithredu ar eu sail yn syth eu neilltuo i waith yn y dyfodol. Caiff yr holl gyflwyniadau eu hadolygu'n rheolaidd. Os bernir nad ydynt yn berthnasol mwyach neu'u bod y tu hwnt i gwmpas ystyriaethau cyfredol, byddant yn cael eu tynnu allan o'r broses adolygu oni bai bod diwygiadau neu newidiadau yn y dyfodol yn golygu ei bod yn angenrheidiol eu gwerthuso ymhellach.

### Y broses adrodd

Yn 2021, cafodd y broses adrodd rhwng AIDAC a'r Gweinidog Cabinet sy'n gyfrifol am yr amgylchedd ei hegluro dan Gytundeb Gweinidogol. Mae'r cytundeb yn nodi'r broses sy'n golygu bod AIDAC yn rhoi adroddiad i'r Gweinidog (drwy ei Swyddfa Breifat ac adrannau polisi swyddogol perthnasol), ac mae'n disgrifio'r cyfnod sydd gan y Gweinidog wedyn i ddarparu ymateb ystyriol (sef chwe wythnos).

Bu llawer o oedi cyn i ni gael ymateb Gweinidogol llawn i'r adroddiadau a gynhyrchwyd gennym eleni. Ni chawsom fyth ymateb ffurfiol i'n hadroddiad ynghylch Confensiwn Aarhus. Mae AIDAC yn cydnabod y portffolio ehangach y mae angen i Weinidog ei reoli ond hoffai nodi'r effaith y mae oedi o'r fath yn gallu ei chael ar themâu adroddiad. Mewn amgylchedd dynamig lle mae deddfwriaeth allweddol yn cael ei diwygio'n barhaus a lle mae adroddiadau newydd gan ein cydweithwyr ym maes yr amgylchedd yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd, mae'n hanfodol bod ymatebion yn cael eu darparu o

[10] Egwyddorion blaenoriaethu Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru

fewn yr amserlenni a sefydlwyd, er mwyn sicrhau bod ein gwaith yn berthnasol ac yn gywir.

I'r un perwyl, mae AIDAC wedi bod yn gweithio'n ddiwyd i gwblhau ei dasgau adrodd nad oeddent wedi'u cyflawni, gan barhau i roi cyfrif am y datblygiadau amgylcheddol sylweddol sydd wedi digwydd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'n cydnabod yr angen i symud yn gyflym, a'i nod yw cynnal amserlen gyflymach ar gyfer adrodd yn y dyfodol er mwyn bod yn effeithiol wrth nodi materion allweddol a newidiadau angenrheidiol a mynd i'r afael â nhw i wella canlyniadau amgylcheddol. Mae hynny'n cynnwys ystyried ein hadnoddau a'r gwaith arall a gyflawnir gan ein cymheiriaid yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon er mwyn osgoi unrhyw orgyffwrdd. Fel y nodir isod, mae'r ffaith nad oedd gennym gapasiti llawn yn ystod llawer o'r flwyddyn yn golygu iddi fod yn anodd gwneud cymaint o gynnydd ag y byddem wedi hoffi ei wneud.

Ym mis Ionawr 2026, rhoddodd AIDAC i'r Swyddfa Breifat lythyr cynghori ynghylch Egwyddorion Aarhus a'u goblygiadau posibl ar gyfer Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) cyn sesiwn olaf y Senedd yn ystod y mis canlynol i ystyried y Bil a'i ddiwygio. Roedd yn hanfodol i'r Gweinidog adolygu'r gwaith hwnnw cyn y sesiwn derfynol er mwyn hwyluso'r broses o'i rannu â'r Senedd. Ar y pryd, cyflwynodd AIDAC gais ychwanegol dan y Cytundeb Gweinidogol i ganiatáu i'r adroddiad hwnnw gael ei gyhoeddi (ochr yn ochr â'n hadroddiad ynghylch Safleoedd Gwarchodedig) cyn cael yr ymateb ffurfiol a sefydlu fframwaith adrodd ehangach. Cafwyd ymateb cychwynnol gan y Gweinidog, a oedd yn amlinellu ei farn am argymhellon yr adroddiad, ac er i eithriad gael ei ganiatáu er mwyn i'r adroddiadau penodol hynny gael eu cyhoeddi, ni wnaeth y Gweinidog gymeradwyo newid parhaol i'r broses gyfredol.

Mae anhyblygrwydd y cytundeb cyfredol ar gyfer y broses adrodd yn achosi heriau i AIDAC, yn enwedig o gofio'r oedi sydd wedi bod wrth gael ymatebion a'r ystyriaeth gyfyngedig sydd wedi'i rhoi i argymhellion a nodwyd yn adroddiadau AIDAC. Gallai hynny arwain at rwystrau ychwanegol wrth geisio ymgorffori safbwyntiau AIDAC mewn mentrau cysylltiedig a diwygiadau deddfwriaethol.

**Pwysau allanol**

Yn 2025, cafodd AIDAC ohebiaeth a cheisiadau am wybodaeth dro ar ôl tro yng nghyswllt rhai o'r meysydd cyfredol yr adroddir yn eu cylch. Roedd y ceisiadau hynny'n niferus a gwnaethant roi straen difrifol ar adnoddau cyfyngedig, gan rwystro datblygiad gwaith ar draws pob agwedd ar waith AIDAC. Dan Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol y DU 2004[11] ac fel 'corff annibynnol', mae AIDAC yn gorfod cydymffurfio â'r rheoliadau ac yn gorfod ymateb cyn pen y cyfnod penodol, sef 20 diwrnod gwaith. Mae AIDAC yn cydnabod y cymorth a'r cyngor a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnodau pan oedd angen ymdrin â'r ceisiadau, ac mae'n ddiolchgar am y cyngor a'r cymorth a gafwyd. Mae hefyd yn cydnabod yr angen am ddogfen bolisi sefydlog i ategu'r Egwyddorion Blaenoriaethu a'r Cylch Gorchwyl[12] y glynir wrthynt ar hyn o bryd.

**Newidiadau i'r tîm**

Cafwyd sawl newid i dîm AIDAC yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a oedd yn cynnwys colli un Dirprwy a hanner tîm yr Ysgrifenyddiaeth sy'n cynorthwyo AIDAC. Gan fod y tîm yn fach, mae newidiadau o'r fath yn effeithio'n uniongyrchol ar gynhyrchiant ac ar ddatblygiad y meysydd yr adroddir yn eu cylch, sy'n arwain at oedi hir. Yn ogystal, mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r newidiadau hyn, a'r amser sy'n ofynnol i gael adnoddau newydd yn lle'r adnoddau a gollwyd, wedi cyfrannu weithiau i ragor o oedi.

Yn yr un modd, mae newidiadau annisgwyl i brosesau ariannol sefydlog wedi achosi oedi trafferthus wrth dalu AIDAC a'r Dirprwy Aseswyr. Mae'r anghysondebau hyn yn tarfu ar gydberthnasau gweithio, a phan gânt eu gwaethygu gan hyd y cyfnodau dan sylw, gallant gael effaith andwyol ar weithrediadau AIDAC. Mae'n bwysig mynd ati'n rhagweithiol i nodi problemau o'r fath a mynd i'r afael â nhw'n brydlon er mwyn sicrhau prosesau sy'n mynd rhagddynt yn esmwyth.


---

[11] **Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 | 2024**

[12] Cylch gorchwyl AIDAC


## Trosolwg o'r holl gyflwyniadau a gafwyd

Rydym wedi cael chwe chyflwyniad ers mis Mawrth 2025, sy'n golygu ein bod wedi cael cyfanswm o 44 o gyflwyniadau i gyd. Mae tri deg o gyflwyniadau wedi cyfrannu i adroddiadau, mae 13 wedi'u cau, ac nid yw un cyflwyniad a gafwyd drwy ebost wedi arwain at unrhyw weithredu pellach. O blith y chwe chyflwyniad a gafwyd ers 2025, roedd pedwar yn perthyn i gwmpas AIDAC ac yn ymwneud â chyfraith amgylcheddol ac roedd dau y tu allan i gwmpas AIDAC.





Ffig. 1: Statws pob cyflwyniad a gafwyd hyd yma gan AIDAC.

Roedd pedwar o'r cyflwyniadau a gafwyd eleni'n ymwneud â'r deddfau ynghylch bywyd gwyllt a chynefinoedd, ac roedd dau'n ymwneud â Gwybodaeth a Rheoleiddio Amgylcheddol. Mae'r cyflwyniadau sydd wedi'u cau heb fod unrhyw gamau gweithredu pellach wedi'u cymryd yn ymwneud â chyflwyniadau a gafwyd cyn mis Mawrth 2025. Er y barnwyd nad yw dau gyflwyniad a gafwyd eleni'n perthyn i gwmpas AIDAC, byddant yn dal i gael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn penderfynu a fydd unrhyw wybodaeth bellach yn dod i'r amlwg a allai effeithio ar y penderfyniad cwmpasu.




Ffig. 2: Nifer y cyflwyniadau a gafwyd gan AIDAC, yn ôl categori

Hyd yma, mae 73% o'r holl gyflwyniadau a gafwyd wedi ymwneud â'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu, a barnwyd felly eu bod yn perthyn i gwmpas AIDAC. Mae mwyafrif y cyflwyniadau a gafwyd yn ymwneud o hyd ag ansawdd dŵr.



Ffig. 3: Cyfanswm y cyflwyniadau a gafwyd bob blwyddyn.

Cafwyd chwe chyflwyniad rhwng mis Mawrth 2025 a mis Mawrth 2026, sydd ychydig yn uwch na'r nifer a gafwyd yn 2024. Mae'n dangos bod nifer y cyflwyniadau'n cynyddu erbyn hyn ar ôl gostyngiad yn eu nifer yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Mae nifer y cyflwyniadau sydd wedi'u cysylltu ag adroddiadau wedi cynyddu o gymharu â 2023-2024. O'r 44 o gyflwyniadau a gafwyd hyd yma, mae 31 wedi'u cysylltu ag adroddiadau.

## Manylion pellach am bryderon a ddaeth i law rhwng mis Mawrth 2025 a mis Mawrth 2026

Fel y nodwyd uchod, cafwyd chwe chyflwyniad eleni (Mawrth 2025 – Mawrth 2026). Nid oedd dau o'r cyflwyniadau hynny'n perthyn i gwmpas AIDAC. Dan ein cylch gorchwyl, yr unig gyflwyniadau y mae'n bosibl eu hystyried yw rhai sy'n ymwneud â'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu. Nid yw hynny'n cynnwys achosion o dorri cyfraith amgylcheddol neu faterion yr ymdrinnir â nhw dan systemau eraill. Mae AIDAC yn endid anstatudol ac nid oes ganddo'r pwerau ymchwilio sydd gan reoleiddwyr amgylcheddol Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Roedd y cyflwyniad cyntaf yn ymwneud â'r angen i ymgorffori Egwyddorion Aarhus yng nghyfraith amgylcheddol Cymru. Cafodd cyngor AIDAC i'r Gweinidog ei dderbyn.

Roeddem yn falch o glywed bod cyfeiriad at adolygiad barnwrol yn cael ei ychwanegu at y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Ddeddf, mewn ymateb i hyn.

Roedd yr ail gyflwyniad yn ymwneud ag amlder a graddau achosion lle mae tirfeddianwyr a phorwyr yn llosgi glaswelltir â thanau nad ydynt dan reolaeth, a'r niwed y mae hynny'n ei achosi i gynefinoedd a bioamrywiaeth. Mae'r cyflwyniad hwn wedi'i gysylltu â'r adroddiad ynghylch llosgi dan reolaeth.

Roedd y trydydd cyflwyniad yn ymwneud â methiant Cyfoeth Naturiol Cymru i gydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol yng nghyswllt dynodiad mynediad agored Afon Eden (Cors Goch Trawsfynydd) dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Ni

chafodd y cyflwyniad hwn ei gysylltu ag adroddiad, ac ni chafodd unrhyw gyflwyniad ffurfiol ei wneud.

Mae’r pedwerydd cyflwyniad yn ymwneud â gwarchodaeth annigonol yn Rheoliadau Gwrychoedd 1997 ar gyfer tir sydd wedi’i glustnodi i’w ddatblygu. Cafodd y mater hwn ei drafod yn yr adroddiad ynghylch Gwrychoedd.

Mae’r pumed cyflwyniad yn ymwneud â phryderon am y modd y mae’r gyfraith yn gweithredu yng nghyswllt Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Roedd y cyflwyniad yn honni bod y broses o roi’r gyfraith ar waith yn ymarferol yn cael ei rhwystro, a bod Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth annigonol i sefydlu rhwydwaith cydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn benodol. Dyma’r cyflwyniad cyntaf sydd wedi bod yn berthnasol i’r adroddiad newydd ynghylch yr amgylchedd morol.

Mae’r chweched cyflwyniad yn ymwneud â phryder nad oes unrhyw sail statudol ar hyn o bryd ar gyfer cyfamodau cadwraeth yn neddfwriaeth Cymru. Nid yw hynny’n ymwneud â’r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru ac nid yw wedi’i gysylltu ag adroddiad.

Cawsom saith o bryderon drwy ebost uniongyrchol, ac ni chymerwyd camau pellach yng nghyswllt yr un ohonynt. Y rheswm am hynny oedd bod y pryderon yn ymwneud â ‘mater penodol’ yn hytrach na mater rheoleiddiol cyffredinol.

Roedd neges ebost am gamfanteisio ar yr amgylchedd ac ar anifeiliaid yn ymwneud â’r holl slyri a charthion solet heb eu trin sydd wedi’u gwasgaru a’u storio mewn tomenni am nifer o flynyddoedd, a hynny mewn caeau agored wrth ymyl cartrefi preswyl.

Cafwyd dwy neges ebost am wastraff ac ailgylchu. Roedd un yn honni bod adrannau’r llywodraeth yn methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol drwy ganiatáu i gwmnïau eFasnach ddefnyddio pecynnau untro er bod yna opsiynau hyfyw ar gyfer eu hailddefnyddio. Roedd yr ail neges yn ymwneud â gwastraff adeiladu a dymchwel

sy'n cael ei ollwng a'i gladdu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn agos i ffin SoDdGA Tir Mawr a Dderi Hir.

Cafwyd dwy neges ebost am weithgarwch diwydiannol a llygredd. Roedd un ohonynt yn ymwneud â halogi hanesyddol yn Chwarel Maendy yn gollwng i mewn i dir wrth ymyl cartrefi ac yn lledaenu arogl tawch gwenwynig ar draws eiddo preswyl.

Roedd yr ail neges yn honni bod achosion o weithredu'n groes i ganiatâd cynllunio wedi digwydd, a oedd wedi achosi llygredd golau a sŵn ar Gaeau Chwaraeon Ysgol Cefn Saeson yng Nghastell-nedd. Roedd y neges yn tynnu sylw at ddiffyg asesiadau o lygredd sŵn ac at seilwaith golau nad oedd yn cydymffurfio â'r gofynion.

Cafodd pryder ei fynegi wrthym drwy ebost a oedd yn canolbwyntio ar achos o ddinistrio cynefin, lle'r oedd datblygwyr tai wedi dinistrio rhannau o safle dro ar ôl tro er mwyn ceisio cael caniatâd cynllunio, gan niweidio bywyd gwyllt a rhywogaethau gwarchodedig yn ogystal â stociau amgylcheddol cyfoethog. Cafwyd neges ebost arall am fywyd gwyllt a chynefinoedd, a oedd yn ymwneud â choed a llwyni a oedd wedi tyfu'n wyllt wrth ymyl llwybr beicio ac a oedd yn beryglus.

# Adroddiadau 2025-26

### Adroddiadau a gyhoeddwyd

### Gwrychoedd

Cafodd yr adroddiad am wrychoedd[13] ei ysgrifennu er mwyn ymateb i gyflwyniadau a gafwyd yn 2021, a oedd yn ymwneud yn bennaf ag effeithiolrwydd Rheoliadau Gwrychoedd 1997. Roedd yna bryderon hefyd am y defnydd a gâi ei wneud o'r arfer o osod rhwydi ar wrychoedd er mwyn atal adar. Mae'r adroddiad:

- yn asesu a yw'r fframwaith cyfreithiol presennol yn gweithredu'n effeithiol;
- yn nodi meysydd lle nad yw'r warchodaeth gyfreithiol bresennol efallai'n sicrhau'r manteision a fwriadwyd, yn enwedig yng nghyswllt gwarchod bioamrywiaeth;
- yn nodi bylchau posibl yn y ddeddfwriaeth bresennol;
- yn nodi meysydd lle gallai'r broses o roi'r ddeddfwriaeth ar waith yn ymarferol fod yn cael ei rhwystro; ac
- yn darparu argymhellion ynghylch sut y gellid gwella'r gyfraith.

Yn ôl asesiad Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2020, dim ond 17 y cant o wrychoedd yng Nghymru oedd mewn cyflwr da yn 2016. Roedd y ffigur hwnnw'n disgyn i 2 y cant ar gyfer gwrychoedd ar dir âr.

Nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn cynnig unrhyw warchodaeth benodol i wrychoedd trefol, er gwaetha'r ffaith eu bod yn darparu llawer o wasanaethau ecosystemau, yn enwedig i fioamrywiaeth. Rydym yn argymell y dylai gwrychoedd fod yn rhan o'r drefn gynllunio ac y dylai awdurdodau cynllunio lleol gael arweiniad ynghylch y ffactorau y dylent eu pwyso a'u mesur wrth iddynt ystyried ceisiadau cynllunio.

Roeddem yn ddiolchgar am gyfraniad myfyrwyr o brifysgol Caerdydd i'r gwaith hwn.

---

[13] Gwarchod Gwrychoedd yng Nghymru: adroddiad **| 2025**

### Coed a choetiroedd

Cafodd yr adroddiad am warchodaeth gyfreithiol i goed a choetiroedd yng Nghymru[14] ei ysgrifennu er mwyn ymateb i gyflwyniadau a oedd yn amau a yw'r gyfraith sy'n ymwneud â chwympo coed, Gorchmynion Cadw Coed a'r system gynllunio yn rhoi sylw digonol i werth coed a choetiroedd yng Nghymru. Mae'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn mynd i'r afael â rhai o'r pryderon a fynegwyd gennym am drwyddedau cwympo coed. Mae'r un peth yn wir am y diwygiadau i Orchmynion Cadw Coed, sydd wedi'u cynnwys yn y drafft o Fil Cynllunio (Cymru). Mae'r rhifyn diweddaraf o Bolisi Cynllunio Cymru yn sicrhau bod pwysigrwydd amgylcheddol coed yn rhan annatod o bolisi, ac mae'n cynnwys rhai gofynion llym y mae angen i awdurdodau cynllunio lleol eu dilyn. Rydym wedi gwneud argymhellion a fydd, gobeithio, yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru ac eraill yn eu hymdrechion i weithredu'r polisi ar goed a choetiroedd, ac a fydd yn eu hannog i ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r bylchau sy'n weddill, megis y diffyg gwarchodaeth benodol i goed y cydnabyddir eu bod o bwys penodol.

### Safleoedd gwarchodedig[15]

Cafodd AIDAC ddau gyflwyniad am y modd y caiff safleoedd gwarchodedig eu rheoli a'u gwarchod yng Nghymru. Roedd a wnelont yn benodol â'r diffyg gwybodaeth am statws o ran cadwraeth Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Honnwyd bod llawer o safleoedd wedi'u difrodi neu wedi dirywio, ac nad oedd safleoedd yn cael eu rheoli'n briodol na'u gwarchod. Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â'r honiadau hynny yng ngoleuni'r dystiolaeth a gafwyd gan ystod eang o gyrff ynghylch y pynciau canlynol:

---

[14] Gwarchod Coed a Choetiroedd yng Nghymru: adroddiad **| 2025**
[15] Safleoedd Gwarchodedig yng Nghymru: adroddiad **| 2026**

- Gwaith monitro safleoedd gwarchodedig
- Targedau ar gyfer safleoedd gwarchodedig
- Newidiadau posibl i'r fframwaith cyfreithiol presennol
- Rhwystrau i gadarnhau cytundebau rheoli
- Systemau gorfodi
- Dull addasol o reoli safleoedd.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at wendidau o ran monitro, sy'n cynnwys bylchau hir rhwng asesiadau a data annigonol ynghylch cyflwr safleoedd, ynghyd â heriau o ran gosod targedau ystyrlon, defnydd anghyson o bwerau cyfreithiol presennol, rhwystrau i gytundebau rheoli, ac effeithiolrwydd cyfyngedig gwaith gorfodi. Canfyddiad yr adroddiad yw bod llawer o safleoedd mewn cyflwr gwael neu anhysbys oherwydd adnoddau cyfyngedig a dulliau rheoli tameidiog.

Mae'r adroddiad yn argymell cryfhau'r fframwaith cyfreithiol, gan gyflwyno dyletswydd statudol i fonitro'n rheolaidd, gwella cyllid a gwaith gorfodi, a mabwysiadu dulliau rheoli mwy addasol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn cyfrannu'n effeithiol i adferiad natur.

Daw i'r casgliad bod y dull Monitro Safonau Cyffredin yn parhau'n briodol. Roedd ein hadroddiad yn cydnabod bod y math hwn o waith monitro'n gofyn am lawer o adnoddau. Roedd yn credu'n gryf, wrth i'r ddyletswydd statudol gael ei phennu, bod yn rhaid sicrhau cynnydd mewn cyllid er mwyn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i weithredu rhaglen fonitro sy'n golygu bod pob safle'n cael ei fonitro o leiaf bob chwe blynedd. Dylid adrodd bob blwyddyn ynghylch canlyniadau'r rhaglen honno.

.

**Confensiwn Aarhus**[16]

[16] Adroddiad ynghylch Confensiwn Aarhus | 2025

Ym mis Mawrth 2025, cafodd AIDAC gyflwyniad a oedd yn honni na fyddai Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) yn gallu cyflawni'r amcanion a fwriadwyd heb gynnwys 'Egwyddorion Aarhus'. Mae'r Confensiwn yn rhoi hawliau i aelodau'r cyhoedd dan dri philer:

- mynediad at wybodaeth amgylcheddol;
- cyfranogiad y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau amgylcheddol;
- mynediad at gyfiawnder mewn materion amgylcheddol.

Gwnaeth adroddiad AIDAC ynghylch y Confensiwn yr argymhellion canlynol:

1. ***Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Nodiadau Esboniadol ar gyfer y Ddeddf yn cynnwys cyfeiriad at adolygiad barnwrol ac at ymyrryd mewn gweithrediadau yng nghyswllt y pwerau atodol yn Atodlen 1, Rhan 9, paragraff 23.***
2. ***Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, yn ystod tymor nesaf y Senedd, gydweithio â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i ddiwygio'r Ddeddf er mwyn cynnwys darpariaeth ffurfiol i Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru wneud cais am adolygiad barnwrol mewn achosion brys ac i ymyrryd.***

Cafodd AIDAC lythyr ymateb gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ar y pryd, sef Huw Irranca Davies. Cafodd yr argymhelliad cyntaf, sef y dylid cyfeirio'n benodol at adolygiad barnwrol yn y Memorandwm Esboniadol, ei dderbyn. Cafodd yr ail argymhelliad ei wrthod ar y sail nad oedd unrhyw dystiolaeth gredadwy i gadarnhau'r farn y byddai'r llys yn gwrthod rhoi statws i Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru oherwydd nad oes ganddo bwerau o'r fath.

Cafodd yr ymateb hwn ei anfon fel 'ymateb cychwynnol' i'r adroddiad. Ni chafodd AIDAC fyth ohebiaeth a oedd yn fwy ystyriol.

**Llythyr cynghori i Weinidogion am Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig**

Cafodd AIDAC, Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon a Safonau Amgylcheddol yr Alban gyflwyniad yr un a oedd yn canolbwyntio ar yr oedi

mawr canfyddedig wrth gwblhau Rhwydwaith y DU. Ym mis Medi 2025, gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog i fynegi ein pryderon am y diffyg cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion ar gyfer Cymru, a oedd yn y Trydydd Adolygiad o'r Rhwydwaith, ac i dynnu ei sylw at y gwaith y mae Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon a Safonau Amgylcheddol yr Alban yn ei gyflawni yng nghyswllt y mater hwn.

Gwnaethom argymell y dylai Gweinidogion Cymru wneud y canlynol:

1. **Cyhoeddi'r fframwaith wedi'i flaenoriaethu ar gyfer gweithredu (wedi'i ddiweddaru os oes angen); a**

2. **Gweithredu'r Trydydd Adolygiad o'r Rhwydwaith yn unol â'r fframwaith hwnnw sydd wedi'i flaenoriaethu**.

Awgrymwyd hefyd y dylai Gweinidogion Cymru gael eu hannog i sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael adnoddau digonol (o safbwynt gweithwyr, cyllideb a chymorth ychwanegol) i weithredu argymhellion y Trydydd Adolygiad o'r Rhwydwaith.

Ehangodd Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon, a gyflwynodd hysbysiadau ymchwilio'n flaenorol i DEFRA, DAERA a Natural England ynglŷn â'r mater hwn, gwmpas ei hymchwiliad er mwyn cynnwys yr angen am adolygiad o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig morol. Anogodd AIDAC Weinidogion Cymru i gydweithio'n agos â gweinyddwyr y DU i sicrhau bod adolygiad o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig morol yn cael ei gwblhau'n brydlon.

Ni ofynnodd AIDAC am ymateb gan y Gweinidog i'r argymhellion a wnaed, ac ni chafodd ymateb ganddo. Cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y llythyr fel papur i'r Aelodau ei ystyried.

## Adroddiadau sy'n cael eu datblygu

### Ansawdd dŵr

Dechreuodd gwaith ar adroddiad ynghylch ansawdd dŵr croyw yn 2024, ar ôl i ni gael nifer o gyflwyniadau am wahanol fathau o lygredd dŵr. Cafwyd tystiolaeth hefyd gan

sawl rhanddeiliad wrth iddynt ymateb i'n Galwad wreiddiol am Dystiolaeth yn ystod y flwyddyn honno.

Tarfodd newidiadau i'r tîm yn AIDAC ar y gwaith, ond ailgydiwyd ynddo ym mis Rhagfyr 2025 ar ôl penodi William Wilson yn Ddirprwy Asesydd. Yn y cyfamser, mae sawl datblygiad pwysig wedi digwydd, a oedd yn cynnwys cyhoeddi adolygiad Bolton o'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, Adroddiad Terfynol y Comisiwn Dŵr Annibynnol, a Phapur Gwyrdd Llywodraeth Cymru ar Ddŵr. Ar ôl ystyried y datblygiadau hynny, rydym wedi penderfynu y dylai'r adroddiad ymdrin ag ystod eang o faterion sy'n effeithio ar ansawdd dŵr.[17] Ein bwriad, felly, yw cynnwys y pynciau canlynol ynddo:

- Dŵr gwastraff, gorlifoedd carthffosiaeth gyfun, a llygredd oherwydd carthion
- Defnydd tir a llygredd amaethyddol
- Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
- Pwysau cemegol ar ddyfroedd Cymru
- Gwaith monitro
- Gwaith gorfodi
- Adnoddau rheoleiddwyr.

**Tir halogedig**

Mae gwaith ar baratoi adroddiad ynghylch Rhan 2A Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, dan dirpwry John Henderson gyda chymorth yr athro Robert Lee, wedi parhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Athro Lee ac AIDAC wedi cael amryw gyfarfodydd un i un â rhanddeiliaid, a gwnaethant drefnu cyfarfod ar gyfer arbenigwyr pwnc (a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd 2025). Y prif fater sydd wedi dod i'r amlwg yw'r modd y caiff y drefn ar gyfer ymdrin â thir halogedig ei hariannu.

[17] Er mwyn ei gwneud yn bosibl i dystiolaeth gael ei chyflwyno am lygredd amaethyddol, a'i gwneud yn bosibl i dystiolaeth newydd neu dystiolaeth wedi'i diweddaru gael ei chyflwyno am y pynciau eraill, cafodd ail Alwad am Dystiolaeth ei chyhoeddi ar 15 Mehefin 2026, a bydd ar agor tan 27 Gorffennaf 2026.

**Llosgi dan reolaeth**

Cafodd gwaith ar ein hadroddiad ynghylch llosgi dan reolaeth ei ysgogi gan gyflwyniad a oedd yn honni bod cynnydd wedi bod yn nifer y tanau gwyllt ar ucheldiroedd, a achosir gan losgi bwriadol sydd wedi mynd allan o reolaeth. Arweiniodd y cyfarfod yn Llyn Efyrnwy at gyfres o gyfarfodydd pellach ac at gasglu gwybodaeth. Rhagwelir y bydd yr adroddiad yn cael ei gwblhau yn 2026.

**Ardaloedd Morol Gwarchodedig**

Nid oedd yr Adroddiad ynghylch Safleoedd Gwarchodedig yn ymdrin ag Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Rhoddodd cyflwyniad gan yr RSPB gyfle i ni neilltuo adnoddau i'r pwnc hwn, ac mae cwmpas y pwnc wrthi'n cael ei ystyried ar hyn o bryd.

## Monitro effaith

Mae monitro effaith wedi bod yn thema gyson yn adroddiadau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar y mesurau interim ac ar gorff gwaith AIDAC, ers ei adroddiad cyntaf ar gyfer 2022-23.

Yn ein Hadroddiadau Blynyddol, gwnaethom roi diweddariadau ynghylch ein gwaith yn ystod y blynyddoedd wedyn i ddatblygu prosesau monitro effaith. Roedd hynny'n cynnwys adran ychwanegol am fonitro effaith, lle gwnaethom amlinellu ein cynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhelliad y Pwyllgor a lle gwnaethom roi manylion ein hasesiadau. Fel y nodwyd yn flaenorol, rydym wedi sefydlu prosesau ffurfiol ar gyfer cynnal adolygiadau o gyflwyniadau. Rydym yn dal i ddatblygu ein prosesau monitro effaith, ac mae'r rhain yn awr yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer nodi ac adolygu effaith argymhellion adroddiadau. Rydym wrthi hefyd yn datblygu ein dull o fonitro ac o adrodd ynghylch ein prosesau mewnol. Bydd yna dystiolaeth o hynny ar draws gweddill deiliadaeth AIDAC a thrwy gyfeiriadau uniongyrchol at yr adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'r adroddiadau sydd i ddod.

Bydd y dystiolaeth honno'n cael ei defnyddio i asesu cynnydd ar sail pob argymhelliad unigol yn ogystal ag effaith gronnol pob adroddiad.

### Monitro effaith fewnol: adolygiadau o gyflwyniadau

Fel y nodwyd uchod, mae AIDAC wedi cael cyfanswm o 44 o gyflwyniadau. Rydym yn cynnal adolygiadau bob chwarter o'r holl gyflwyniadau er mwyn penderfynu a oes unrhyw newidiadau o bwys mewn deddfwriaeth amgylcheddol yn arwain at oblygiadau i benderfyniadau a wnaed gennym yn flaenorol, yn enwedig ynghylch cyflwyniadau y penderfynwyd yn wreiddiol eu bod y tu allan i gwmpas AIDAC.

Mae sawl cyflwyniad wedi'u cau erbyn hyn, sy'n golygu na fydd AIDAC yn cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach. O ganlyniad, nid yw'r cyflwyniadau hynny'n rhan o'n proses adolygu mwyach. Mewn llawer o achosion, gwnaed y penderfyniad ar sail

y ddealltwriaeth bod y mater a godwyd gan gyflwynwyr wedi cael sylw gan awdurdodau perthnasol drwy fesurau a phrosesau priodol.

Mae effeithiau uniongyrchol wedi'u harsylwi drwy'r cyfraniadau a wnaed gan AIDAC yn 2025 gan drafod â'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a thrwy ryngweithio'n rheolaidd â thîm polisi Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gyflwyno Bil yr Amgylchedd.

Mae'r berthynas waith â'r tîm polisi wedi bod yn rhagweithiol, ac mae llawer o arsylwadau a phrofiadau AIDAC yn ystod y chwe blynedd diwethaf wedi cael eu hystyried wrth i'r Bil gael ei ddatblygu.

Fel y nodwyd uchod, gwnaeth AIDAC ddau argymhelliad ynghylch cyfeirio'n benodol at adolygiad barnwrol yn rhan o swyddogaethau Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru. Roeddem yn falch o glywed, mewn ymateb i hyn, y penderfynwyd y dylid ychwanegu cyfeiriad at adolygiad barnwrol at y Memorandwm Esboniadol i'r Ddeddf.

Caiff effaith gadarnhaol AIDAC ei hadlewyrchu ymhellach mewn cydnabyddiaeth Weinidogol o'i effeithiolrwydd. Tynnodd Huw Irranca-Davies sylw at gryfder cydweithio, gan nodi ym mis Rhagfyr y llynedd y berthynas waith dda iawn[18] rhwng AIDAC, Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon a Safonau Amgylcheddol yr Alban. Mae'r gydnabyddiaeth hon yn atgyfnerthu rôl AIDAC fel corff credadwy ac adeiladol, ac yn dangos sut y mae'n hybu gweithio mewn partneriaeth ar draws y dirwedd o ran llywodraethiant amgylcheddol ac yn cyfrannu i oruchwyliaeth sy'n fwy cydgysylltiedig ac effeithiol.

Yn y Chweched Senedd ar 11/02/2026[19], cafodd argymhellion AIDAC ynghylch pwerau sancsiynau sifil ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru eu cydnabod yn ffurfiol. Cadarnhaodd y Gweinidog Huw Irranca Davies fod y cynigion hynny'n cael eu hystyried yn weithredol, a phwysleisiodd y dylai galwad gan AIDAC gael ei chymryd o ddifrif pan fydd yn dod i law. Mae hynny'n adlewyrchu awdurdod a hygrededd cynyddol

[18] **Cofnod Senedd Cymru | 2026**
[19] Cofnod Senedd Cymru

AIDAC, ac yn amlygu ei rôl o safbwynt dylanwadu ar drafodaethau polisi a chryfhau llywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru.

Ym mis Mawrth y llynedd, nododd Ceri Davies (Cyfoeth Naturiol Cymru) fod y corff wedi elwa o weithredu gydag AIDAC[20], a bod hynny heb os wedi ei helpu i bennu ffiniau ynghylch cyfrifoldebau sefydliadol. Mae'n bwysig nodi bod y profiad hwnnw wedi meithrin hyder mewn trefniadau ar gyfer y dyfodol, yn enwedig drwy barodrwydd i gefnogi dyletswydd i gydweithio, gan gydnabod rôl orfodi'r Asesydd. At ei gilydd, mae AIDAC wedi cyfrannu at egluro lle mae'r cyfrifoldebau hynny'n ategu ei gilydd yn hytrach nag yn gorgyffwrdd â'i gilydd, sy'n cryfhau llywodraethiant amgylcheddol cydgysylltiedig ac effeithiol yng Nghymru.

[20] Cofnod Senedd Cymru

## Mynegi pryder wrth AIDAC

Byddem yn croesawu sylwadau ac adborth ynghylch rôl a gwaith AIDAC. Os hoffech fynegi pryder am y modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru, gallwch lenwi Ffurflen Gyflwyno sydd i'w gweld ar wefan AIDAC:

https://www.llyw.cymru/codi-pryderon-am-sut-mae-cyfraith-amgylcheddol-yn-gweithio

At hynny, mae rhagor o wybodaeth am ein gweithgareddau a manylion ynglŷn â galwadau am dystiolaeth neu ddigwyddiadau i randdeiliaid i'w gweld ar wefan AIDAC:

https://www.llyw.cymru/asesydd-interim-diogelur-amgylchedd-cymru

Os oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch hynny neu'r rôl, neu os hoffech gael eich ychwanegu at y rhestr bostio, mae croeso i chi gysylltu â ni:

IEPAW@llyw.cymru